

# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 24ain o Ebrill 2017 am 7pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Peter Parker, Bethan Lawton, Arwel Pierce, Alan H. Jones, Ieu Thomas

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Simon Jones
2. Datgan diddordeb: Ni fu i unrhyw Gynghorydd ddatgan diddordeb
3. Derbyn cofnodion 20 Mawrth 2017

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion, i gyda dau gywiriad;  
-Glandwr yw'r annedd sydd angen sylw a dim Wenrose  
-I gynnig rhodd o £30 i Gapel Beth a dim £15

4. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101540	£166.64
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101541	£41.60
Capel Bethel	Rhodd	101542	£30.00
Cyngor Gwynedd	Treth 17/18	101543	£723.55
Alan H. Jones	Trydan	101544	£40.00

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Tir ger Fferm Dolgoch, Bryncrug (NP5/55/234):

**PENDERFYNIAD:** I ddatgan pryder:  
-mast yn agos i dai cyfagos  
-dim cyfathrebu/ymgyngori gyda tirfeddianwyr a budd-ddeiliaid  
-defnydd uchel yn cael ei wneud o'r ardal gan dwristiaid  
-gofyn i'r datblygwyr ail-ystyried y lleoliad, gan geisio cael lle sydd yn llai amlwg

6. Mono – Yngymghori ynglŷn â gosod mast teleffon ym Mhentref Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Dyddiadau i'r Dyddiadur - Nosweithiau Cynghorau Tref a Chymuned:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

8. Barbara P. Jones - Llythyr o ddiolch:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Llythyr gan drigolyn lleol ynglŷn â chael mynediad cerbyd i'w annedd:

**PENDERFYNIAD:** I anfon y llythyr ymlaen at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn am arweiniad, gan ofyn yn benodol am arweiniad ynglŷn â diogelwch.

10. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd y canlynol:  
-Eiddew yn tyfu ger y giât  
-oddeutu 6 teils wedi disgyn oddi-ar wal yn y cegin  
-matiau diogelwch yn y cae chwarae wedi codi

**PENDERFYNIAD:**

Gofyn i Jones & Jones atgyweirio'r matiau gan ail-osod ffrâm bren o amgylch y matiau

-Gofyn i Glwb Pêl-droed lanhau'r Pafiliwn gan bod eraill yn ei ddefnyddio

-Cynghorwyr i edrych ar y Pafiliwn er mwyn canfod beth sydd angen ei wneud

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Dim i'w adrodd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod gwastraff yn cael ei adael ar Ffordd y Felin / Pengwern ar dir sydd efallai yn eiddo i Gyngor Gwynedd.

**PENDERFYNIAD:**

I ysgrifennu at uned Priffyrdd Cyngor Gwynedd er mwyn eu hysbysu bod gwastraff yn cael ei adael ar Ffordd y Felin / Pengwern.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:13pm

Llofnod y Cadeirydd .....